COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB/ O BELL TRWY MICROSOFT TEAMS, DYDD MERCHER, 20 MEDI 2023, AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd W J Kendall – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | A R Berrow | F D Bletsoe | S J Bletsoe |
| JPD Blundell | E L P Caparros | N Clarke | RJ Collins |
| HJ David | C Davies | C L C Davies | P Davies |
| S Easterbrook | M J Evans | N Farr | P Ford |
| J Gebbie | W R Goode | RM Granville | H Griffiths |
| D T Harrison | M L Hughes | P W Jenkins | M R John |
| M Jones | MJ Kearn | M Lewis | J Llewellyn-Hopkins |
| RL Penhale-Thomas | J E Pratt | E Richards | R J Smith |
| JC Spanswick | I M Spiller | T Thomas | JH Tildesley MBE |
| A Wathan | A Williams | AJ Williams | HM Williams |
| I Williams | MJ Williams | R Williams | E D Winstanley |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Jackie Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Laura Griffiths | Rheolwr Grŵp Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Laura Kinsey | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |

163. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Aelodau/Swyddogion canlynol:-

Y Cynghorwyr SJ Griffiths, T Wood, RM James, G Walter a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau.

164. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau o fuddiannau canlynol:-

Y Cynghorydd H Bennett - Eitem 6 ar yr agenda, buddiant personol gan fod ei chyflogwr wedi ei grybwyll yn yr adroddiad fel darparwr partner.

Y Cynghorwyr J C Spanswick – Eitem 6 ar yr agenda, buddiant rhagfarnus gan fod aelod agos o'r teulu yn ymwneud â'r Gwasanaethau Plant.

Y Cynghorwyr N Clarke, Alex Williams ac H Williams – Eitem 8 ar yr agenda, buddiannau rhagfarnus gan fod gan aelodau agos o'r teulu ail gartrefi.

Y Cynghorwyr Chris Davies a D Harrison – Eitem 8 ar yr agenda, buddiannau rhagfarnus (ni roddwyd rhesymau)

Y Cynghorydd T Thomas – Eitem 8 ar yr agenda, buddiant rhagfarnus am ei fod yn gweithio i sefydliad sy'n cynrychioli buddiannau asiantau eiddo.

Y Cynghorydd S Bletsoe – Eitem 8 ar yr agenda, buddiant rhagfarnus fel Rheolwr Gweithrediadau, Cymru, i Gymdeithas Genedlaethol Landlordiaid Preswyl sy'n cynrychioli buddiannau Landlordiaid Rhentu Preifat sy'n berchen ar ail gartrefi yn y Fwrdeistref Sirol.

Fe wnaeth yr holl Aelodau hynny a ddatganodd fuddiannau rhagfarnus yn yr eitemau a fynegwyd uchod, adael y cyfarfod tra roedd yr adroddiadau yn ymwneud â'r materion hyn yn cael eu hystyried.

165. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cyngor, dyddiedig 19 Gorffennaf 2023 fel cofnod gwir a chywir.

166. DERBYN CYHOEDDIADAU:

Maer

Sylwch fod newid bach wedi bod i aelodaeth y Pwyllgor Rheoli Datblygu gan y bydd y Cynghorydd Johanna-Llewellyn-Hopkins yn cymryd lle'r Cynghorydd Heidi Bennett. Ni fydd hyn yn effeithio ar gydbwysedd gwleidyddol y Pwyllgor.

Gyda chytundeb yr Arweinwyr Grwpiau bu rhai newidiadau i'r agenda heddiw. Bydd cyhoeddiadau cyfyngedig; Bydd Eitem 9 yn cael ei gohirio tan y Cyngor ym mis Hydref er mwyn caniatáu ymgorffori gwybodaeth ychwanegol ac ni fydd unrhyw gwestiynau gan y Cyngor yn Eitem 12 ychwaith.

Cafwyd un cyhoeddiad gan y Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd, fel a ganlyn:-

Cyhoeddwyd Cyd-adolygiad Asiantaethau ar effeithiolrwydd trefniadau amddiffyn plant ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar ymweliadau a gynhaliwyd rhwng 12 a 16 o Fehefin gan gynrychiolwyr Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gwasanaethau Tân ac Achub Cwnstablaeth Ei Fawrhydi, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Estyn.

Er mai'r Cyngor yw'r arweinydd ar ddiogelu, bu'r adolygiad hefyd yn ystyried y camau gweithredu a'r prosesau sydd yn eu lle ar gyfer ein partneriaid diogelu statudol eraill, sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Heddlu De Cymru ac roedd yn cynnwys y trefniadau gweithio mewn partneriaeth rhwng pob sefydliad wrth fynd i'r afael â cham-drin ac esgeuluso plant.

O ganlyniad, mae'r adroddiad helaeth wedi amlygu enghreifftiau niferus o ble mae'r trefniadau partneriaeth a'r prosesau ar gyfer pob asiantaeth unigol wedi perfformio'n dda, tra hefyd yn nodi meysydd o amrywioldeb a lle mae angen gwneud gwelliannau pellach – fel grŵp, ac fel sefydliadau ar wahân hefyd.

Mae'r holl bartneriaid oedd yn ymwneud â'r adolygiad wedi croesawu canfyddiadau'r adroddiad hwn, gan ei fod yn cynnig cipolwg annibynnol ar waith pob sefydliad yn ogystal ag effeithiolrwydd ein hymdrechion aml-asiantaeth.

Er ei bod yn arbennig o braf nodi'r lefel uchel o sylwadau cadarnhaol yn yr adroddiad, rydym hefyd wedi rhoi sylw manwl i'r meysydd hynny y mae'n rhaid eu cryfhau neu lle gellir gwneud gwelliannau.

Mae hyn yn cynnwys y cynnydd digynsail yn y galw, sydd wedi effeithio ar bob partner, ac wedi gorfodi gorddibyniaeth ar ddefnyddio asiantaethau a gweithredu uwchlaw'r sefydliad a ariennir yn y gwasanaethau plant.

Mae pob partner yn dal i fod yn gwbl ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaethau diogelu gorau posibl, a chyflawni gwelliannau ym mhob maes.

Os oes unrhyw un yn dymuno edrych ar yr adolygiad, yna mae copïau ar gael iddo ar wefan yr Arolygiaeth Cyfiawnder ynghyd â rhagor o fanylion am waith Adolygiad ar y Cyd yr Arolygiaethau.

167. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD

Gwnaeth yr Arweinydd y cyhoeddiadau canlynol:

Mae'n debyg y cymer cau ffatri Zimmer Biomet hyd at ddwy flynedd i'w gwblhau, a bydd diswyddiadau'n digwydd drwy gydol y cyfnod hwn.

Roedd 69 y cant o'r diswyddiadau yn weithwyr o fewn y Fwrdeistref Sirol.

Ar y cyd â phartneriaid, rydym wedi cyfarfod ag uwch reolwyr yn y ffatri i drafod sut y gallwn gyda'n gilydd gefnogi'r staff yr effeithir arnynt.

Cafwyd cyfarfod yn yr haf yng Nghanolfan Waith Pen-y-bont ar Ogwr lle'r oedd ein tîm Cyflogadwyedd a Datblygu Economaidd yn bresennol i drafod y cymorth y gall pob sefydliad ei ddarparu i Zimmer Biomet a'u staff.

Mae disgwyl i'r cyfnod ymgynghori swyddogol ddod i ben ym mis Hydref. Mae'r cwmni wedi datgan nad oes arnynt eisiau i Lywodraeth Cymru wneud dim ar hyn o bryd, heblaw am gynorthwyo i chwilio am gwmni newydd a allai fod â diddordeb mewn cymryd uned y ffatri ymlaen.

Bydd cyfarfod cyd-asiantaethol arall yn cael ei gynnal gyda'r cwmni yn ystod mis Tachwedd i drefnu cymorth addas ar gyfer y staff fydd yn colli eu swyddi y flwyddyn nesaf.

Ni fu'r ymdrechion i arbed Wilko yn llwyddiannus. Caeodd siop Maesteg ei drysau am y tro olaf ddoe, tra bydd siop Pen-y-bont ar Ogwr yn cau yfory.

Yn wreiddiol, y gobaith oedd y byddai'r ddwy siop leol wedi cael eu cynnwys ymhlith y safleoedd hynny sydd wedi cael eu prynu gan B&M a Pepco. Yn anffodus, nid yw hyn wedi cael ei wireddu.

O ganlyniad, mae cyfarfodydd wedi cael eu cynnal gyda thîm Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr yn y ddwy siop i gynnig cymorth i weithwyr sy'n cael eu diswyddo.

Rydym yn parhau i ddarparu cymorth a chyngor uniongyrchol i staff yr effeithir arnynt, a bydd yr holl bartneriaid yn cydweithio'n agos dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf i gynnig cymorth pellach.

Rydym yn parhau i hysbysebu a hybu Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel lle rhagorol i fusnesau fuddsoddi ynddo. Bydd diweddariadau pellach ar gael wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

Mae Llywodraeth y DU i fuddsoddi pum can miliwn o bunnau i helpu Gwaith Dur Tata ym Mhort Talbot i symud tuag at ffyrdd glanach a gwyrddach o gynhyrchu dur.

O ystyried nifer uchel trigolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n cael eu cyflogi yn y diwydiant, mae pryderon ynghylch adroddiadau na chafodd undebau llafur eu cynnwys yn y trafodaethau ynghylch y fargen, a bod rhybuddion cynnar wedi bod y gallai'r buddsoddiad mewn technoleg newydd hefyd arwain at golli cymaint â 3,000 o swyddi.

Er bod hwn yn gam cadarnhaol tuag at ddatgarboneiddio, y gobaith yw y gellir cynnal trafodaethau brys fydd yn ceisio sicrhau dyfodol cynhyrchu dur cynaliadwy yn Ne Cymru tra hefyd yn diogelu swyddi.

Yn ogystal â thechnoleg ffwrnais arc trydan, gallai hyn, er enghraifft, ystyried defnyddio ffyrdd gwyrdd eraill o wneud dur.

Fel y dywedwyd wrth yr aelodau'n gynharach, mae Marchnad Dan Do Pen-y-bont ar Ogwr yng Nghanolfan Siopa'r Rhiw yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr wedi cau ar unwaith y prynhawn yma.

Ystyrid bod ei chau yn angenrheidiol er budd diogelwch y cyhoedd ar ôl i archwiliad arbenigol a gynhaliwyd y bore yma gadarnhau y gallai fod problem bosibl yn ymwneud â defnyddio Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) o fewn to'r adeilad.

Felly, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cymryd camau buan i gau'r farchnad dan do er mwyn ei gwneud yn bosibl cynnal asesiadau ac arolygon manwl pellach, a chytuno ar y camau nesaf.

Cafodd masnachwyr wybod a rhydd y Cyngor y wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y sefyllfa wrth iddi ddatblygu. Nid yw cau neuadd y farchnad yn effeithio ar Ganolfan Siopa'r Rhiw gerllaw, sy'n dal ar agor fel arfer.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn cynnal arolygiadau ar yr holl adeiladau a gynhelir gan y Cyngor yn unol â chyngor cenedlaethol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Rhoddodd y broses arolygu y flaenoriaeth i ysgolion lleol, lle na chanfuwyd unrhyw feysydd pryder. Mae'r awdurdod ar hyn o bryd yn y broses o wirio adeiladau a seilwaith eraill a chynhaliodd arolygiad gweledol o'r farchnad dan do yn gynharach y mis hwn fel rhan o'r broses hon.

Dangosodd hyn fod angen arolygiad manylach gan arbenigwyr oedd wedi eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, a chynhaliwyd hwnnw y bore yma. Mae'r penderfyniad i gau'r farchnad dan do yn seiliedig ar eu canfyddiadau.

Mae arolygon pellach yn cael eu trefnu ar hyn o bryd i ganfod maint y broblem RAAC a beth allai'r goblygiadau hirdymor fod. Gan mai ar brydles y mae neuadd y farchnad gan y Cyngor, mae'r awdurdod hefyd yn cysylltu â'r perchnogion preifat fel mater o frys.

Hyd yma, Marchnad Dan Do Pen-y-bont ar Ogwr yw'r unig safle lle mae problem bosibl yn ymwneud â RAAC wedi cael ei chanfod.

Rydym yn cydnabod yr anghyfleustra a'r caledi posibl y bydd hyn yn ei achosi i fasnachwyr a'r effaith y bydd colli'r farchnad yn ei chael fel lle poblogaidd a phrysur lle mae pobl yn siopa, yn cyfarfod ac yn cymdeithasu.

Bydd diweddariadau pellach yn dilyn pan fyddant ar gael.

Mae rhagor o wybodaeth am RAAC ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, drwy glicio ar y ddolen.

168. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2022/23

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant adroddiad yn amlinellu adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022/23, sy'n ofyniad statudol.

Dywedodd fod yr adroddiad yn edrych yn ôl dros 2022/23, gan amlygu’r prif gyflawniadau a heriau tra hefyd yn amlinellu blaenoriaethau allweddol y Gyfarwyddiaeth ar gyfer 2023/24.

Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, adroddir ar berfformiad yn erbyn chwe safon ansawdd gan dynnu sylw at gamau gweithredu allweddol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn (gweler paragraff 3.4 yr adroddiad); sut mae’r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi perfformio yn erbyn y safonau hyn yn ystod y cyfnod hwn a'r camau allweddol ar gyfer 2023/24 i'n galluogi i gyflawni ein blaenoriaethau.

Roedd y dadansoddiad a ddeilliodd o’r Adroddiad Blynyddol yn tynnu ar gynnydd yn erbyn Cynllun Busnes y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, data perfformiad ar gyfer pob maes gwasanaeth ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gofal Cymdeithasol Plant, barn Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fel y corff rheoliadol ac arolygol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac adborth gan bobl sydd wedi cael profiad o’r gwasanaethau cymdeithasol a llesiant a’u gofalwyr.

Er bod yr adroddiad yn tynnu sylw at y blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/24 roedd cyflwyniad yr adroddiad blynyddol gan y Cyfarwyddwr yn nodi’r meysydd thematig allweddol ar gyfer gwella yn ystod 2023/24, er enghraifft:

- Clywed a gweithredu ar lais plant a theuluoedd, oedolion a gofalwyr;
- Sicrhau gweithlu sefydlog, yn cael ei gefnogi’n dda, yn llawn cymhelliant ac yn barhaol;
- Gwella ymarfer;
- Cynyddu effaith ein gwasanaethau a'n hymyriadau i’r eithaf;
- Sicrhau ymateb mwy effeithiol i blant a theuluoedd, oedolion a gofalwyr, ag anghenion cymhleth;
- Gweithio'n ddiwnïad gyda phartneriaid; a
- Rhoi systemau cudd-wybodaeth a gwybodaeth gwell yn eu lle

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod ymgysylltu ac ymgynghori yn agwedd allweddol ar yr adroddiad a’r ffordd yr ydym yn ymgymryd â'r gweithgareddau hyn, yn ogystal â throsolwg ar yr adborth sydd wedi ei gynnwys ynddo.

Tynnodd yr adroddiad hefyd sylw at y ffordd yr oedd adborth yn cysylltu â rhai o'r camau allweddol.

Roedd crynodeb o weithgarwch rheoleiddio allweddol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn hefyd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad ac roedd hwn yn canolbwyntio ar arolygiadau gwasanaethau a reoleiddir; Arolygiad Gwerthuso Perfformiad Gofal Cymdeithasol Plant

ym mis Mai 2022 (a rannwyd ymhellach gyda'r adran Trosolwg a Chraffu) a Gwiriad Gwelliant Gofal Cymdeithasol Plant Tachwedd 2023. Roedd y crynodeb ymhellach yn cynnwys canfyddiadau allweddol a sut y byddwn yn ymateb i sefyllfaoedd penodol sy'n codi yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Gyfarwyddiaeth hefyd yn y broses o adnewyddu'r cynllun strategol ar gyfer plant a theuluoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Bydd y cynllun wedi ei adnewyddu yn canolbwyntio ar ddatblygu cynllun cynaladwyedd, yn amlinellu gwasanaeth, gweithlu a strategaeth ariannol ar y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio gyda phlant a theuluoedd sydd mewn perygl ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Ystyrir y cynllun gan y Cabinet yn hydref 2023, meddai Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu sut mae'r gwasanaeth yn parhau i weithio'n effeithiol gydag asiantaethau partner a sefydliadau trydydd sector, oedd yn allweddol o ran cynorthwyo'r gwasanaeth fel cyrff cefnogi.

Yn olaf, tynnai'r adroddiad sylw at ein hadnoddau ariannol gan nodi'r heriau a'r pwysau allweddol y mae'r Gyfarwyddiaeth a'r Cyngor yn eu hwynebu er mwyn darparu gwasanaethau statudol, fel y mae gofyn iddynt ei wneud.

Rhannodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant gyflwyniad PowerPoint gyda'r Cyngor, er mwyn tynnu sylw at rai o ganfyddiadau allweddol Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan nodi'n arbennig y meysydd lle roedd y Gyfarwyddiaeth wedi gweithio'n dda, gan gynnwys meysydd allweddol o welliant, yn ogystal ag amlinellu meysydd lle gellid gwneud rhywfaint o gynnydd pellach.

Canmolai'r Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd yr adroddiad a'r cyflwyniad ategol, gan gynnwys y ffilm fideo ynddo, oedd hefyd yn cynnwys ymarferiad ymgyrch Recriwtio.

Diolchodd i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'i Phenaethiaid Gwasanaeth/Uwch dîm rheoli am eu gwaith rhagorol a'u hymrwymiad i'r hyn oedd yn wasanaeth hollbwysig. Ategodd yr Arweinydd hyn, yn ogystal ag ychwanegu pwysigrwydd ein partneriaid oedd yn rhoi eu cefnogaeth i lwyddiant y gwasanaeth.

Nododd Aelod oddi wrth yr adroddiad fod y staff parhaol ym maes Gofal Cymdeithasol Plant yn 122.91 FTE ac eisoes yn gweithio ar 29% yn uwch na'r lefel er mwyn cwrdd â'i ofynion statudol. Gyda hyn mewn golwg, gofynnodd sut yr oedd perfformiad yn cael ei fonitro i fesur effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithlu.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, fod Gwasanaethau Plant yn un o'r meysydd gwasanaeth cyhoeddus oedd yn cael ei fonitro fwyaf o fewn unrhyw faes llywodraeth leol, gan fod yna lawer o feysydd, yn lleol ac yn genedlaethol, lle câi perfformiad ei fonitro'n fanwl iawn.

Yn fewnol, câi dangosyddion perfformiad eu monitro drwy Fframwaith Perfformiad Corfforaethol y Cyngor. Roedd peth o'r data o ran perfformiad wedi ei adlewyrchu yn yr adroddiad a'r cyflwyniad cysylltiedig meddai.

Rhoddwyd pwyslais arbennig ar wneud penderfyniadau yn fuan, ymweliadau â phlant, gwahanol gamau'r prosesau amddiffyn plant, ac roedd pob un ohonynt yn ymwneud â gweithgarwch cyffredinol gweithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Roedd gan bob Gweithiwr Cymdeithasol lwyth achosion ac roedd maint a chymhlethdod pob un o'r rhain yn cael eu monitro'n fanwl, er enghraifft, drwy gyfarfodydd y Tîm Rheoli, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu rheoli a'u prosesu'n effeithiol.

Ychwanegodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod adolygiadau perfformiad chwarterol hefyd yn eu lle i edrych yn fanwl ar y ffordd yr oedd llwythi achosion yn dod yn eu blaenau.

Gan fod Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yn faes sy’n cael ei reoleiddio mor ddwys, roedd monitro allanol a rhannu gwybodaeth hefyd yn cael ei gynnal gydag arolygiaethau.

Daeth â’i sylwadau i ben drwy gadarnhau i'r Cyngor fod y Bwrdd Gwella Annibynnol hefyd wedi canmol CBS Pen-y-bont ar Ogwr ar ei berfformiad yn cynhyrchu data meintiol er bod rhywfaint o gynnydd pellach i'w wneud o hyd ar ddata ansoddol.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2022-23 Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

169. CYNLLUN CYNALIADWYEDD 3 BLYNEDD I WELLA’R CANLYNIADAU AR GYFER GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD YM MHEN-Y-BONT AR OGWR

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant adroddiad, a’r pwrpas oedd i’r Cyngor gymeradwyo cynllun 3 blynedd (Atodiad 1 i’r adroddiad y cyfeirir ato) i wella canlyniadau i blant a theuluoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gyda’r goblygiadau ariannol fyddai’n codi o’r camau gweithredu yn y cynllun hwnnw sy’n cefnogi diogelu ac amddiffyn plant ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu rhywfaint o wybodaeth gefndir, lle roedd yn cadarnhau y byddai angen adnoddau ychwanegol i gefnogi'r uchod yn fwy cadarn, er mwyn medru cyflawni hyn yn llwyddiannus wrth wynebu'r nifer o heriau disgwyliedig o'n blaenau.

Esboniodd, er bod pob gwasanaeth wedi cael ei herio yn ystod ac ar ôl Covid, ei bod yn ymddangos bod y gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi profi'r gwaethaf o’r anghydbwysedd rhwng y galw a’r capasiti, yn enwedig yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae lefel y galw am wasanaethau gofal cymdeithasol statudol i blant dros y 18 mis diwethaf, yn enwedig mewn Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) a gwasanaethau ardal seiliedig mewn canolfannau, wedi cynyddu’n sylweddol. Y penawdau yw:

- 8,334 o gysylltiadau â gofal cymdeithasol plant yn 2022/23 o gymharu â 5,667 (cynnydd o 47.1% o gymharu â 2021/22)
- 3,114 o asesiadau yn 2022/23 (cynnydd o 89.4% o gymharu â 2021/22)
- 1,202 o blant â chynlluniau gofal a chymorth ar 31.03.23 (cynnydd o 9.3% o gymharu â 31.03.22)
- 2,154 o gyfarfodydd strategaeth cychwynnol yn 2022/23 (cynnydd o 98.3% o gymharu â 2021/22)
- Cwblhawyd 1,557 o ymchwiliadau diogelu S47 yn 2022/23 (cynnydd o 80% o gymharu â 2021/22)
- 270 o blant ar y gofrestr amddiffyn plant ar 31.03.23 (cynnydd o 54% o gymharu â 31.03.22)

Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, fod dadansoddiad annibynnol yn dangos bod y Cyngor wedi gweithio'n galed, ac yn llwyddiannus ar y cyfan, dros y flwyddyn ddiwethaf i ymdrin â'r cynnydd digynsail yn y galw. Mae wedi golygu cyllid tymor byr sylweddol i ymdrin ag argyfwng capasiti

gwirioneddol. Mae’r ymateb hwn yn amlwg yn sefyllfa bresennol y gweithlu a grynhoir isod:

- Staff parhaol ym maes gofal cymdeithasol plant: 122.91 cyfwerth ag amser llawn;
- Mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn gweithredu ar 29% yn uwch na'r sefydliad i gwrdd â'r holl ddyletswyddau statudol mewn modd amserol. Ariennir y staff ychwanegol hyn drwy gyfuniad o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a grantiau penodol, ond mae hefyd yn cyfrannu at sefyllfa gorwariant sylweddol;
- Mae 20% o swyddi gwag yn y gweithlu parhaol. Fel arfer mae tua 5% yn absennol o'r gwaith ar unrhyw adeg;
- Mae pob swydd wag (a mwy) wedi ei chynnwys er mwyn sicrhau diogelwch trefniadau diogelu ac amddiffyn plant;
- Felly, mae 38% o'r gweithlu gofal cymdeithasol plant presennol yn staff asiantaeth.

Yn dilyn cynnal y dadansoddiad a amlinellwyd yn yr adroddiad, ystyrid bod y systemau presennol sydd yn eu lle yn rhy gymhleth, ac mae cydweithwyr ar draws y system yn gweithio’n galed o ddydd i ddydd i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli’n effeithiol, a bod y penderfyniadau a wneir yn gyson. Fodd bynnag, dangosai adolygiad y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) o ffeiliau achos penodol, a chyfweliadau â rheolwyr, eu bod yn ymwybodol iawn o'r anawsterau y mae'r system yn eu creu, yn enwedig o ran y ffrydiau gwaith y tynnwyd sylw atynt ym mharagraff 3.9 yr adroddiad.

Aeth Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ymlaen i ddweud, i deuluoedd neu weithwyr proffesiynol eraill, y gallai trefniadau eraill, mwy sylfaenol, fod yn ddryslyd. Ar y wefan ar hyn o bryd, mae nifer o wahanol rifau ffôn y gellid eu defnyddio ynglŷn â gwasanaethau plant, a all greu dryswch posibl yn enwedig gyda’r gwahaniad rhwng cymorth cynnar a threfniadau cyswllt gofal cymdeithasol. Cyfwelodd IPC arweinwyr gweithredol y gwasanaethau dan sylw, ac adolygu detholiad bychan o ddeg ffeil achos enghreifftiol, a ddewiswyd fel enghreifftiau o arfer mwy a llai effeithiol. Mae'r IPC yn datgan ei bod yn amlwg iddynt, oddi wrth yr elfen hon o'r gwaith, fod cydweithwyr yn gweithio'n galed gyda'i gilydd i gydlynu ymatebion i deuluoedd ac i wneud yn siŵr bod bylchau yn y ddarpariaeth yn cael eu lleihau. Roedd yr IPC felly wedi nodi meysydd ar gyfer gwella ymarfer a systemau ymhellach. Roedd y rhain wedi eu cynnwys ym mharagraff 3.10 yr adroddiad.

Felly, yng ngoleuni'r heriau presennol a'r angen i adeiladu gwasanaeth integredig cynhwysfawr ac effeithiol, argymhellodd yr IPC y dylid datblygu gwasanaeth mwy integredig sydd wedi ei gynllunio ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, ond sy'n tynnu ar arfer gorau o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru sydd wedi cyflawni gwelliant sylweddol. Tynnwyd sylw at y rhain yn yr adroddiad a'i wybodaeth ategol.

Yn olaf, tynnodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant sylw’r Aelodau at oblygiadau ariannol yr adroddiad a fyddai, er eu bod yn sylweddol, yn cyfrannu’n fawr at ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol i blant a theuluoedd wrth symud ymlaen.

Cadarnhaodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd ei bod yn fwy na pharod i gefnogi’r adroddiad a’i argymhellion a thynnodd sylw’r Cyngor at baragraff 8.16, oedd yn rhoi ymrwymiad ariannol i’r Cynllun 3 Blynedd.

Nododd Aelod yr ymrwymiad cyllid oedd ei angen i gryfhau'r gwasanaeth, gan gynnwys y Cyngor yn manteisio ar ei gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i gwrdd ag anghenion y gwasanaeth tra câi dewisiadau ariannu mwy parhaol eu harchwilio. Gofynnodd pa lefel o gyllid mewn termau ariannol oedd ei angen i gynnal y gwasanaeth yn y tymor hwy.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid y byddai £1 filiwn yn cael ei rwymo i'r gyllideb sylfaenol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant ac y byddai hwn yn barhaus fel adnodd parhaol. Fodd bynnag, roedd angen balans cronfa o £2.5 miliwn i gefnogi cynigion yr adroddiad yn llawn, er y gellid defnyddio cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i gyflawni hyn yn y flwyddyn gyfredol. Ar gyfer y flwyddyn nesaf, byddai gwarged o'r fath yn rhan o drafodaethau'r broses o bennu'r Gyllideb Refeniw, er mwyn sicrhau canlyniad addas.

Gofynnodd Aelod a oedd yr Awdurdod yn hyderus y bydd y Modiwl Gweithredu arfaethedig a ddefnyddir ar gyfer y Cynllun 3 Blynedd yn sicrhau'r cynaladwyedd oedd ei angen i gwrdd â'r galw a amcangyfrifid a hefyd a fyddai amcanion y Cynllun yn cael eu cyrraedd a'u mesur. Gofynnodd hefyd pa mor aml y byddai'r Cynllun yn cael ei adolygu a beth fyddai'r canlyniadau pe na châi cynigion y Cynllun eu cyflawni. Pwy fyddai'n atebol am hyn, ychwanegodd ymhellach.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant mai hi a swyddogion allweddol a gâi eu dwyn i gyfrif am gyflawni'r Cynllun, drwy gyrff megis Bwrdd Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol a fyddai'n cynnwys cynrychiolwyr gwleidyddol o blith aelodau'r Cabinet a'r Arweinwyr Grwpiau. Roedd yna hefyd gyfarfodydd Dangosfwrdd Perfformiad wythnosol lle câi cynnydd ei fonitro, yn ogystal â diweddariadau adroddiadau perfformiad chwarterol arferol y Gyfarwyddiaeth.

Roedd y camau gweithredu a gynigid yn y Cynllun wedi eu seilio ar dystiolaeth sylweddol oedd wedi dod i'r amlwg yn dilyn trafodaethau ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a Lloegr, oedd wedi eu cael eu hunain mewn sefyllfa debyg i CBS Pen-y-bont ar Ogwr ac wedi gwneud gwelliannau yn y gwasanaeth wedi hynny drwy neilltuo adnoddau ychwanegol, a allai dargedu materion megis, er enghraifft, atal a ffyrdd o gynorthwyo gyda'r cynnydd yn yr angen.

Ychwanegodd mai hi oedd y Swyddog oedd yn gyfrifol am gwrdd ag amodau'r Cynllun fel Swyddog Statudol y gwasanaeth o dan ddeddfwriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac y byddai'r Cynllun hefyd yn cael ei fonitro gan Arolygiaeth Gofal Cymru, drwy eu harolygiadau, fyddai'n edrych ar faterion megis ansawdd gwasanaeth a lefelau perfformiad. Yn fewnol, câi'r Cynllun hefyd ei fonitro drwy'r broses Trosolwg a Chraffu a thrwy'r Bwrdd Perfformiad Corfforaethol (CPA).

I gael rhagor o fanylion am y ddadl a ddilynodd ar yr eitem bwysig hon, cliciwch yma.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:

- Yn cymeradwyo 'Meddwl am y Teulu', y cynllun cynaladwyedd 3 blynedd ar gyfer plant a theuluoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
- Yn cymeradwyo trosglwyddiad cyllideb o £1 filiwn i'r gwasanaethau cymdeithasol yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor;
- Yn nodi'r defnydd ychwanegol o gronfeydd wrth gefn o £2.5 miliwn yn y flwyddyn ariannol gyfredol i gefnogi'r gwasanaeth fel y manylwyd yn yr adroddiad.
-

170. PREMIWM TRETH GYNGOR AR AIL GARTREFI

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi gwybodaeth bellach i'r Cyngor ar oblygiadau cymhwyso premiwm y dreth gyngor i ail gartrefi o safbwynt cynllunio ac adfywio, fel y gofynnwyd yng nghyfarfod y Cyngor ar 8 Chwefror 2024, a gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i symud ymlaen i gymhwyso'r premiwm o 1 Ebrill 2024.

Rhoddai'r adroddiad rywfaint o wybodaeth gefndir ac yn dilyn hynny, dywedodd fod y Cyngor o'r blaen wedi derbyn adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i osod premiwm treth gyngor ar gartrefi gwag ac ail gartrefi yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ac yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus.

Y cynnig oedd gosod premiymau treth gyngor o 100% ar gartrefi gwag o 1 Ebrill 2023 ac ar ail gartrefi o 1 Ebrill 2024, gyda'r ddau yn cynyddu i 200% ar ôl 2 flynedd.

Atgoffodd hi, fodd bynnag, fod yr Aelodau wedi gofyn i adroddiad pellach gael ei ddwyn yn ôl i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ar oblygiadau ehangach premiymau'r dreth gyngor ar ail gartrefi, cyn penderfynu a ddylid parhau i gymhwyso'r premiwm hwn ai peidio (gweler Paragraffau 3.5 i 3.11 yr adroddiad am fanylion pellach).

Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor 81 o ail gartrefi y gellir codi tâl arnynt, a allai gynhyrchu £188,000 o incwm treth gyngor ychwanegol, ond roedd hyn yn amodol ar gymhwyso gostyngiadau ac eithriadau a chasglu'r dreth yn llwyddiannus.

Eglurodd y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid fod yr adroddiad diweddaraf hwn yn amlinellu rhai o oblygiadau gweithredu'r cynnig ar gyfer cynllunio ac adfywio a gofynnodd am benderfyniad gan y Cyngor ynghylch a ddylid parhau â'r penderfyniad a wnaed yn y Cyngor ym mis Chwefror 2023 i gymhwyso'r premiwm o Ebrill 2024.

Ailadroddodd Aelod y Cabinet dros Dai, Cynllunio ac Adfywio fod adroddiad cychwynnol wedi cael ei gyflwyno i'r Cyngor y llynedd ar y pwnc hwn ac ar dai gwag. Dymunai dynnu sylw at y ffaith fod argyfwng tai sylweddol yn dal i fod yn y Fwrdeistref Sirol ar hyn o bryd.

Gofynnodd Aelod pe bai aelod o'r cyhoedd yn prynu ail gartref oedd wedi bod yn wag ers blynyddoedd lawer ac oedd yn anaddas i fyw ynddo, yna a fyddai'n rhaid iddo dalu Treth Gyngor ddwbl ar hwn, h.y. yn ogystal ag ar ei brif eiddo, am y cyfnod o amser a gymerai i wneud yr ail eiddo yn gyfanheddol. Gofynnodd a oedd unrhyw amddiffyniad ariannol neu gymorth ar gael i'r bobl hyn.

Dywedodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid, fod nifer cynyddol o grantiau ar gael i uwchraddio eiddo fel yr uchod er mwyn eu hadfer i'w defnyddio fel cartrefi. Cadarnhaodd y byddai'n rhannu'r rhain â'r Aelodau, fel y gallent hwythau yn eu tro eu rhannu ag unrhyw etholwyr â diddordeb.

Nododd Aelod y cyfle i ennill refeniw ychwanegol yn ffurf taliadau'r Dreth Gyngor gan berchnogion ail gartrefi preifat. Gofynnodd, serch hynny, a allai'r Cyngor yn yr un modd gasglu refeniw ychwanegol oddi wrth berchnogion eiddo busnes gwag.

Dywedodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid fod hyn yn dibynnu ar wybod pwy oedd perchnogion eiddo gwag ac a oedd modd eu holrhain. Ychwanegodd fod refeniw y Dreth Gyngor o eiddo preifat yn dod i mewn i'r Cyngor yn uniongyrchol, fodd bynnag, roedd yr Awdurdod yn casglu Trethi Busnes mewn perthynas ag eiddo masnachol ar ran Llywodraeth Cymru (LlC) ac yn talu hwn yn uniongyrchol iddynt. Yna byddai'r Cyngor yn derbyn taliad gan LlC oedd yn seiliedig ar boblogaeth oedolion BSP.

Nododd Aelod yr incwm ychwanegol a gadarnhawyd yn yr adroddiad o £188 mil a gofynnodd beth fyddai'r costau i'r Awdurdod o sicrhau bod hwn yn cael ei gasglu.

Dywedodd y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid, na fyddai cost ychwanegol, gan y byddai hyn yn waith ychwanegol a fyddai'n cael ei amsugno gan adain y Dreth Gyngor, er y gallai fod costau ychwanegol yn ffurf diffyg talu, er enghraifft, drwy fynd ar drywydd taliad a phe bai angen, achos llys a gwysion, ac yn y blaen.

Gan fod rhai Aelodau wedi nodi nad oeddent yn cefnogi cynigion yr adroddiad, cytunodd y Cyngor i gynnal pleidlais electronig ar yr eitem hon, a chanlyniad hon oedd y canlynol:-

| Dros | Yn erbyn | Atal pleidlais |
|---|---|---|
| 28 | 4 | 4 |

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r premiymau 100% arfaethedig ar y dreth gyngor i'w gweithredu o 1 Ebrill 2023 ar gartrefi gwag hirdymor, ac o 1 Ebrill 2024 ar ail gartrefi, gyda'r ddau yn cynyddu i 200% ar ôl 2 flynedd.

171. TREFNIADAU TROSOLWG A CHRAFFU CYDBWYLLGOR CORFFORAETHOL DE-DDWYRAIN CYMRU

PENDERFYNWYD: Cytunodd y Cyngor i ohirio'r eitem hon er mwyn cael rhagor o wybodaeth yng nghyfarfod arferol nesaf y Cyngor.

172. PENODI CYNRYCHIOLWYR COFRESTREDIG I'R PWYLLGORAU PWNC TROSOLWG A CHRAFFU

Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd adroddiad, a'i ddiben oedd gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i benodi'r unigolion canlynol yn Gynrychiolwyr Cofrestredig ar gyfer eitemau Addysg a ystyrid gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc, am gyfnod o bedair blynedd ar y mwyaf:

a) Ms Angela Clarke fel Cynrychiolydd Cofrestredig yr Eglwys yng Nghymru;

b) Ms Samantha Rachel Lambert-Worgan fel Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr Ysgolion Arbennig

Dywedodd fod cyfnod swydd Cynrychiolydd Cofrestredig blaenorol yr Eglwys yng Nghymru wedi dod i ben a bod enwebiad newydd wedi'i geisio. Mae Ms Angela Clarke wedi'i henwebu i wasanaethu fel Cynrychiolydd Cofrestredig yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer eitemau Addysg a ystyrid gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc, am uchafswm o bedair blynedd.

Yn dilyn etholiad a gynhaliwyd yn unol â Rheoliadau Cynrychiolwyr Rhiant Lywodraethwyr a Chynrychiolwyr Eglwysig (Cymru) 2001, mae Ms Samantha Rachel Lambert-Worgan wedi'i henwebu i wasanaethu fel Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr Ysgolion Arbennig ar gyfer eitemau Addysg a ystyrid gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc am yr un tymor ag uchod.

Ar ôl i'r Cyngor ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor wedi nodi'r adroddiad a chymeradwyo penodi'r unigolion a ganlyn yn Gynrychiolwyr Cofrestredig ar

gyfer eitemau Addysg a ystyrid gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc, am uchafswm o bedair blynedd:

(i) Ms Angela Clark fel Cynrychiolydd Cofrestredig yr Eglwys yng Nghymru;
(ii) Ms Samantha Rachel Lambert-Worgan fel Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr Ysgolion Arbennig.

173. ADRODDIAD GWYBODAETH I'W NODI

Hysbysodd Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol y Cyngor am adroddiad gwybodaeth i'w nodi, oedd wedi cael ei gyhoeddi ers y cyfarfod arferol diwethaf.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cydnabod cyhoeddi'r adroddiad y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 3.1 yr adroddiad.

174. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU I'R WEITHREDIAETH

Roedd ymatebion y Pwyllgor Gwaith i gwestiynau a ofynnwyd iddynt gan rai Aelodau o'r Cyngor wedi'u dosbarthu i'r holl Aelodau cyn y cyfarfod.

Fel yr oedd y Maer wedi'i gyhoeddi'n fyr yn gynharach, ni fyddai'r eitem hon ar yr agenda yn cael ei hystyried ymhellach yn y cyfarfod heddiw.

175. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:20